# Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-05-08 (p3): 10 Ebrill 2008

## Deisebau Newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir cryno am bob un o'r deisebau sydd i'w hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 06 Mawrth 2008. Mae geiriad y ddeiseb wedi ei ddarparu ynghyd â dogfennau ategol sydd i'w gweld fel atodiadau i'r papur hwn.

### (i) P-03-106 'Pride in Barry'

**Geiriad y Deiseb**

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod, sef arweinwyr busnes a chymuned tref y Barri, yn datgan y dylai Rhaglen Adfywio ardal y Barri Fwyaf gael sicrwydd a pharhad cyllid priodol, digonol ac amserol am y 10 mlynedd nesaf er mwyn parhau i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol a pharhau â'r gwaith da a'r gwelliannau a wnaed hyd yma.   Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw buddiolwr cyllid o werthiant tir ar lan y dŵr yn y Barri, oddeutu £60miliwn a chredwn y dylai ymrwymo i ail-fuddsoddi cyfran fawr o'r arian hwnnw yn y Barri.

Mae'r deisebwyr felly yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru alluogi cymuned y Barri i gymryd perchnogaeth o'i dyfodol, drwy ei rhyddhau o natur gylchdroawl cystadlaethau ansicr sy'n cael eu hysgogi'n ganolog a'u noddi gan grantiau ac nad ydynt yn rhoi atebion lleol i broblemau lleol, a galluogi ateb ymrwymiad ariannu hirdymor sy'n gymesur â'r arian sydd i'w dderbyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o werthiant y tir ar lan y dŵr yn y Barri.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew R.T. Davies ar ran 'Pride in Barry'

Mae'r sefydliad yn cael ei disgrifio fel:

'cymdeithas o sefydliadau gwirfoddol, awdurdodau lleol ac eraill sydd wedi dod at ei gilydd er mwyn emdrychu i wella eu hamgylchedd lleol'

Y prif ddeisebwyr ydi Mr Paul Haley, cadair 'Pride in Barry'. Mae'r sefydliad wedi casglu 214 o lofnodau.

### (ii) P-03-107 Papur Dyddiol Cymraeg

**Geiriad y Deiseb**

Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Gymru'n Un: 'Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg' Galwn am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb yma gan Cymdeithas yr Iaith Cymraeg. Mae'r sefydliad wedi casglu dros 1,000 o enwau mewn cyfnod o bythefnos. Y prif ddeisebwr ydi Hywel Griffiths, cadair Cymdeithas yr Iaith Cymraeg. Mae'r prif ddeisebwr wedi darparu gohebiaeth rhwng Cymdeithas yr Iaith a'r Gweinidog dros Dreftadaeth.

Mae'r gihebiaeth wedi ei atodi fel PET(3) 05-08 Papur 3A.

### (iii) P-03-108 Rhandiroedd

**Geriad y Deiseb**

' Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i'r Cynulliad ymchwilio i weld a oes camau y gall eu cymryd i amddiffyn rhandiroedd trwy Gymru, o wybod bod bygythiad i randir Haigside yn Nhreherbert. Credwn fod rhandiroedd yn adnodd cymunedol pwysig sy'n cynnig manteision sylweddol i'r amgylchedd ac i iechyd'

**Cefndir**

Y prif ddeisebwr yw Geraint Davies sydd wedi casglu 3,600 o lofnodau. Mae MRS

wedi cyhoeddi papur ar warediad Rhandir Haigside. Maer papur wedi ei atodi fel PET(3) 05-08 Papur 3B.

### (iv) P-03-109 Cynlluniau yn erbyn bwlio

**Geiriad y Deiseb**

Mae'r disgyblion yn Ysgol Uwchradd Penfro yn galw ar Llywodraeth Cynulliad Cymru i drawsgronni cynlluniau yn erbyn bwlio mewn ysgolion ac yn y gymuned lydan'

**Cefndir**

Rhoddodd Disgyblion Ysgol Penfro'r ddeiseb yma i Nerys Evans AM fel rhan o prosiect Partneriaid mewn Gwleidyddiaeth Mencap Cymru yn rhoi cyfle i bobl ifanc ag anableddau dysgu neu anghenion addysgol arbennig gyfle leisio eu barn.

Y prif ddeisebwr ydi Maria Van Assche, athrawes yn Ysgol Penfro

### (v) P-03-110 Ysbytai Gogledd Cymru

**Geiriad y Deiseb**

Rydym yn pwyso i berthynas gogledd Cymru ac ysbytai yn Lerpwl barhau a gwrthwynebwn ganoli yng Nghaerdydd ac Abertawe.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mike German ar ran y deisebwyr, dan arweiniad Cllr Mike Priestley.

### (vi) P-03-111 Uned Llawfeddygol y Fron

**Geiriad y Deiseb**

**'**Gwrthwynebwn symud Uned Lawfeddygol y Fron o Landudno'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mike German ar ran y deisebwyr, dan arweiniad Cllr Mike Priestley.

### (vii) P-03-113 Sgrinio ar gyfer ganser y brostad

**Geiriad y Deiseb**

Mae'r Gymdeithas Ymchwil Canser Ryngwladol yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i newid polisi'r GIG i sicrhau bod y prawf PSA ar gael os gofynnir, i bob dyn dros 50, a helpu i arbed mwy na 10,000 o ddynion sy'n marw o ganser y brostad bob blwyddyn.

Un o'r pethau sydd gan ddynion America nad oes gan ddynion Prydain yw mynediad rheolaidd at y prawf PSA, prawf gwaed sy'n cael ei wneud gan Feddygon Teulu, a all wneud diagnosis o ganser y brostad. Er bod rhai anfanteision pwysig i'r prawf, mae tystiolaeth ar draws y byd yn dangos bod defnydd ehangach o'r prawf PSA yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o bobl yn goroesi gyda chanser y brostad. Yn y DU nid oes gan ddynion sy'n pryderu am eu prostad hawl awtomatig i'r prawf PSA. Mae cyfradd y rhai sy'n goroesi am bum mlynedd gyda chanser y brostad yn yr UDA yn 98.5%, o'i chymharu â dim ond 70% yma.

**Cefndir**

Derbyniwyd y ddeiseb hon gan Geraldine Long o AICR ar y 21 Chwefror 2008

Mae'r sefydliad yn 'cyllid ymchwil ymyl dorri i mewn i achosion canser. Yn y 27 blwyddyn ddiwethaf mae AICR wedi cefnogi nifer fawr o brosiectau o gwmpas y byd'

Mae Geraldine Long wedi darparu ragor o wybodaeth, sef fod Llywodraeth Prydain ddim yn ystyried darparu prawf PSA i bawb ar alw ond yn lle, yn gadael y penderfyniad i ymarferwr unigol.

### (viii) P-03-114 Ffyrdd Diogel i Ysgolion

**Geiriad y Deiseb**

Mae'r disgyblion yn Ysgol Uwchradd Whitchurch yn galw ar Llywodraeth Cynulliad Cymru i neud ffyrdd sydd ddu allan i ysgolion yn fwy diogel'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jonathan Morgan AM ar ran disgyblion Ysgol Uwchradd Whitchurch. Y prif ddeisebwr ydi Mrs Andrew Sandiford, athrawes yn yr Ysgol.

### (ix) P-03-116 Fferm Gwynt Coedwig Dyfnant

### Geiriad y Deiseb

'I ddeisebu'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru i annog y Llywodraeth Cynulliad Cymru I ddirymu'r penderfyniad i ddewis Coedwig Dyfnant, Powys, am opsiwn les ar gyfer datblygiad tyrbinau gwynt'

**Cefndir**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Susan Wilkinson o Cymdeithas Marchogaeth a Gyrru Cyrtiau Dyfnant ac Efyrnwy. Maen nhw wedi darparu'r datganiad canlynol:

'Mae Llwybrau Enfys Coedwig Dyfnant yn brosiect twristiaeth marchogaeth sydd yn enwog yn genedlaethol. Mae'r rhwydwaith o lwybrau newydd a dynodedig yn cynnig rhwydwaith marchogaeth a gyrru cyrtiau arbennig mewn awyrgylch coedwig saff. Mae'r llwybrau yn cael ei defnyddio gan ymwelwyr a'r gymuned leol'

Mae'r prosiect yn cael ei drawsgronni gen 'ERDF2 Europeaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd Twrisiaeth (Croes Cymru), Adfywio, yn ogystal â chodi cronfa gan y Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Roedd y Cytundeb Partneriaeth efo'r Comisiwn Coedwigaeth yn fod i ddiogelu y prosiect a ffurfio strategaeth ar gyfer ei datblygiad i wella'r economi lleol. Fysa fferm gwynt diwydiannol ar raddfa fawr yn ddianghenraid perygl i farchogion. Mae ceffylau yn medru dychryn yn hawdd oherwydd y twrw, symudiad llafn, cysgod a theimlad y ddaear. Yn sicr, na fysai pobol yn teithio ymhlith y tyrbinau a fysa hanfod y prosiect o dan fygwth.

Y prif ddeisebwr ydi Susan Trueman, Cadair Cymdeithas Marchogaeth a Gyrru Cyrtiau Dyfnant ac Efyrnwy.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ebrill 2008**